# LC1153

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## The Beet Seed (Wales) 2005

Mae cyfarwyddebau’r Gymuned Ewropeaidd yn gofyn bod rhaid i hadau sicrhau ardystiad swyddogol eu bod wedi bodloni safonau ansawdd penodol cyn cael eu marchnata. Mae’r Rheoliadau yma’n nodi’r amodau sydd i’w bodloni cyn i hadau betys gael eu hardystio.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae’r mân wallau drafftio canlynol wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7(v); maen nhw’n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

- Rheoliad 2(1): ceir dau ddiffiniad o "genetically modified", ill dau wedi’u llunio yn nhermau’r Gyfarwyddeb Gollwng Bwriadol (2001/18/EC). Dylai un gael ei ddileu.
- Rheoliad 16(1): yn is-baragraff (a) mae’r llythrennau ar goll ac ym mharagraff (4)(c) mae’r rhif (ii) ar goll. Ceir (i) diangen ar ôl is-baragraff (c)(ii) a ddylai gael ei ddileu.
- Rheoliad 26(4): yn is-baragraff (b) dylai’r croesgyfeiriad fod yn gyfeiriad at reoliad 25.
- Rheoliad 29(1)a): mae’r rheoliad yma’n dirymu rheoliadau cynharach "as regards Wales". Y derminoleg arferol yw "in relation to Wales" a dyna a ddylai gael ei defnyddio.

- Atodlen 1:-

Ym mharagraffau 2(2)(a) a (b) a 3(e), 5(2)(a) a (b) a (3)(d), 9(2)(a) a (b) a (3)(e), 13(2)(a) a (b) a (3)(d), 15(2)(a) a (b) a (3)(e), 19(2)(a) a (b) a (3)(d), 23(a) a (b) a (3)(g), a 27(2)(a) a (b) sy'n ddarpariaethau cyfatebol, dylai'r cyfeiriad at "National Assembly for Wales" gael ei ddisodli gan gyfeiriad at "the Secretary of State".

- Atodlen 3:-

Dylai cyfeiriad at reoliad 10(15)(b) gael ei fewnosod yn y nodyn ymyl a dylai'r cyfeiriad at reoliad 9(5)(c) gael ei ddiwygio i gyfeirio at reoliad 9(5) (does dim paragraff (c) yn rheoliad 9(5)).

- Atodlen 4:-

Mae angen diwygio'r nodyn ymyl drwy fewnosod cyfeiriadau at reoliad 16(2) a pharagraff 30(2)(b) o Atodlen 1. Dylai'r cyfeiriad at reoliad 9(5)(c) gael ei ddisodli gan gyfeiriad at reoliad 9(5) a dylai'r cyfeiriadau at reoliad 10(5)(c) a pharagraff 3 o Atodlen 3 gael eu dileu.

- Atodlen 7:-

Dylai'r cyfeiriad yn y nodyn ymyl at reoliad 24(6) gael ei ddisodli gan gyfeiriad at reoliad 24(7).

- Atodlen 8:-

Ym mharagraff 14, dylai'r croesgyfeiriad fod yn gyfeiriad at baragraff 13 ac nid at baragraff 12.

O dan Reol Sefydlog 11.7(viii), tynnir sylw arbennig at y ffaith bod y Rheoliadau yma wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg. Mae adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth i sicrhau mai dim ond os yw'r drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg y caniateir i'r Cynulliad gymeradwyo drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw eitem o is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad oni bai ei bod, o dan yr amgylchiadau penodol, yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i'r drafft fod yn ddwyieithog. Mae'r gofyniad yma wedi'i adlewyrchu yn Rheol Sefydlog 24.2.

Deellir bod y Gweinidog o'r farn ei bod yn amhriodol paratoi drafft dwyieithog am resymau sy'n cynnwys cymhlethdod y Rheoliadau a'r ffaith eu bod wedi''u hanelu'n bennaf at y diwydiant hadau bach yn hytrach nag at y cyhoedd yn gyffredinol neu gyrff gwirfoddol.

O dan yr amgylchiadau, bernir bod yr esboniad yn dderbyniol ac nad oes angen cymryd dim camau pellach.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**18 Hydref 2005**